JIWBILÎ

Brain uwchben yr afon
Yn gwawdio uwch y dŵr
A merched yn 'u gore
Yn gwenu lawr o'r tŵr
Milwyr yn cynnig gyrfa
Clos mawr yn llawn o sŵn
Byscars ar y cornel
Yn denu plant a chŵn.

Ma' sipsiwn o Romania
Yn begian ar y stryd
A bois y dre'n eu poeni
Tra'n ymddwyn yn ddi-hid
Ma' cloc y dre yn taro dau
A'r farced yn llawn lleisie
Sŵn y dre yn anthem gref
Yn morio rhwng y murie.

Sant Pedr gad fi'n llonydd
Yn sŵn y jiwbilî
Dwy'n credi mod i wedi cael fy nerbyn
Sant Pedr can dy glychau
Ma'r cylch nawr wedi cau
Cychwyn eto ar y daith ddiderfyn.

Ma'r jiwbilî ar ddechre
Mae'n garnifal go iawn
Ma' pawb wedi cyfadde'
Fod jiwbilî - ie, jiwbilî

Haf yn nhre Caerfyrddin
Ei bywyd yn y stryd
Syrcas, ffair a ffortiwn
I'w darganfod yr un pryd
(Dwy'n mynd) lawr i Sgwâr y Farchnad
I weld be' sy' ar gael
Fi a'r colomennod gwyllt
Yn eistedd yn yr haul.

© Geraint Griffiths 2005